TAG UWCH – NEWYDD

1000N60-1

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 6

## Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun

(Papur Ysgrifenedig)

DYDD MAWRTH, 13 MEHEFIN 2017 – BORE

2 awr a'ch amser estynedig

ⓗWJEC CBAC Cyf.

SJJ*(S17-1000N60-1)-MLP

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Atebwch BOB cwestiwn.**

**Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.**

**Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.**

**Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.**

**Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.**

**Dylech dreulio 1 AWR ar Adran A ac 1 AWR ar Adran B.**

**Cofiwch dreulio amser digonol yn cynllunio eich atebion.**

**NI CHANIATEIR DEFNYDDIO GEIRIADURON YN YR ARHOLIAD HWN.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.**

**Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.**

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

**1. Darllenwch yn ofalus y darn isod ac ysgrifennwch DRAETHAWD yn dadansoddi CYNNWYS ac ARDDULL y darn. Wrth ddadansoddi dylech gofio:**

- **defnyddio TERMAU BEIRNIADAETH LENYDDOL A DYFYNIADAU**
- **cyfeirio at WEITHIAU LLENYDDOL sydd yn ymdrin â THEMA NEU THEMÂU tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.**

**(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych.) [40]**

**Mae'r peth yn ddefod ers tro bellach. Mi fydda i'n mynd draw at ddrôr y dresal a thynnu'r map allan a'i osod ar y bwrdd. Bob bora adeg panad ddeg. Ac wedyn gadael i fy llygaid grwydro drosto fo; yr un ffordd bob tro, o'r mynydd i lawr i'r pentra.**

**Fedra i ddim esbonio'r *gyfaradd, pam fod 'na deimlad cynnas braf yn lledu trwy 'ngwythienna fi wrth ddilyn y llinella main oren neu neidio efo'r nentydd gleision i lawr y llethra, cyn oedi mymryn mewn rhyw gilfach glir.**

A’r caea hefyd, yn batrwm twt fel petaen nhw wedi bod felly erioed yn ffitio’n daclus i’w gilydd.

Ar ôl y ddamwain y dechreuis i. Y ffurfia a’r symbola ar y papur - er mor ddienaid ydyn nhw - yn troi’n llefydd go iawn ac yn codi oddi ar y bwrdd i greu byd o ’nghwmpas i. Mi fyddwn i hyd yn oed yn clywed y syna, gwich *sgrech y coed fel llafn yn torri rhisgl a *sguthan yn canu grwndi’n felys ar fora braf. Weithia mi fyddai ’na sŵn pobl.

Dyna pam fod y misoedd diwetha ‘ma wedi bod yn gymaint o ysgytwad. Mi fydda dagra yn fy llygaid i reit amal wrth daro ar ryw le neu lecyn. Weithia doedd dim ond angan gweld enw a theimlo’i sŵn o ar dafod y cof. Mi fydda’r dagra’n dod hefyd, fel haenan o *agar dros ffenast. Ond nid dyna sy’n fy nallu fi bellach.

Dim ond yn ddiweddar y dechreuodd petha fynd o chwith, a finna’n rhyw amau mai’r hen olwg oedd yn bygwth methu. Rhwbath i’w ddisgwl reit siŵr. Ac, eto, mi fedra i weld popath yn yr hen dŷ yma - ma’ fisitors yn synnu fy ngweld i cystal - ac mi fedra i edrach trwy’r ffenast fach a gweld y tai newydd ar ochr arall y dyffryn.

Dyna pam y dechreuis amau fod rhwbath mwy ar waith, rhwbath na fedrwn i mo’i esbonio. Yn lle plesar ac edrach ymlaen wrth godi o’r hen gadair ’ma i fynd am y dresal, mi ddaeth ’na ofn. Mi ddechreuis gydio yn handlan y ddrôr fel tasa hi’n chwilboeth ac, eto rhwsut,

fel dyn yn mynd am gyffur, fedrwn i ddim peidio. Lawar gwaith, mi fûm i yno am hydoedd a'r hen law 'ma'n crynu. Oedd ei symudiad hi yn union fel y *cudyll coch y byddwn i'n ei weld dan Glogwyn Henbant a'i adenydd o'n siglo mor gyflym fel mai synhwyro'r symudiad oeddwn i, nid ei weld. Ond ofn oedd fy nghryndod i, er 'mod i'n gwybod fod rhaid mentro.

Enwa'r mynyddoedd aeth gynta. Agor y map, a smwddio tros y rhychau a chwilio am y llythrenna cyfarwydd. Awgrym oedd y llythrenna, proc i'r hen gof, dyna i gyd; gweld eu siâp nhw, a gwbod be oedd pob enw. Y dwrnod cynta, chwilio am Cefn Coch yr oeddwn i a methu'n lân â'i weld o. A finna wedi bwriadu gweld rhyw *gylfinir neu ddwy a chlywad sŵn eu hiraeth nhw ar y gwynt. Rhyfadd ydi'r ffordd y mae'r synhwyra'n cymysgu; mi fyddwn i wastad yn gweld eu cri nhw fel rhaff hir, hir yn cael ei daflu tros ymyl dibyn i rywun mewn trafferth.

Mi aeth enwau'r Graig Lefn a Chribor a'r gweddill wedyn, o ddiwrnod i ddiwrnod, nes 'mod i yn y diwadd yn ymbalfalu tros y papur fel dyn dall. Panic oedd o, am wn i, fel tasa colli'r enw yn golygu colli'r peth a finna'n poeni y baswn i, o dipyn i beth, yn colli nabod ar p'run oedd p'run ac yn colli fy llwybra trwy'r eithin a'r grug.

Erbyn hynny, mi ro’n i’n gwbod yn iawn fod mwy na fy llygaid i ar fai. Roedd enwa’r llethra a’r ffriddoedd wedi dechra diflannu fesul un ac un ac wedyn fesul dau a dau. Diflannu, mynd, a dim byd ar y map i ddangos ble buon nhw. Mi fasa’r hen bobl wedi rhoi’r bai ar y tylwyth teg, ond tydw i ddim yn credu yn y rheiny.

Mi ddechreuodd y llinella a’r symbola bylu hefyd. O ddydd i ddydd, oedd y cylchoedd oren yn llai a llai amlwg, fel y cryndod bach ar ôl taflu carrag yn marw ar wyneb pwll, neu rychau’r tonnau mewn tywod yn cael eu gwastadhau gan y gwynt.

Dydw i ddim yn credu mewn ysbrydion a phetha felly chwaith. Fel yr oedd hen bobl yn deud am Lyn Crawia nad oedd neb wedi gweld ei waelod o a’i fod o’n llyncu plant bach. Ffordd o’n cadw ni draw, dyna i gyd, a’r stori’n well na rhybudd.

Ond mae Llyn Crawia wedi mynd erbyn heddiw; oddi ar y map. A Tyddyn Llethr hefyd. Mi deimlis i chwithdod mawr pan welis i fwlch lle’r oedd hwnnw.

Mae’r hen ffrindia wedi arfar gweld y ddalen fawr yn agored ar y bwrdd. Does na neb wedi deud dim am yr enwa, ond falla na wnaethon nhw ddim sbio’n iawn, dim ond taro cip heb weld, fel y byddwch chi efo petha cyfarwydd.

Roedd colli’r Ffridd Isa yn waeth na dim. Ma’ ’na amball i le sy’n arbennig. Mi fuodd bron i mi roi’r gora iddi ar ôl hynny, ond mynd yn ôl wnes i bore wedyn, ar fy ngwaetha, fel erioed. A gweld yr Allt wedi mynd, a’r Odyn a Rhos Bach. Yn y diwadd, o un llecyn i’r llall, does yna ddim ar ôl ond y papur.

Mae’r *aflwydd bron â chyrradd y pentra erbyn hyn. Mi fydda i’n rhoi’r gora i edrach yr adeg honno. Pan fydd o bron â chyrradd y tŷ ‘ma.

Ella y dyliwn i losgi’r map cyn hynny, beth bynnag, rhag i’r felltith fyw ar fy ôl i. Faswn i ddim isio i neb arall ddiodda.

*y gyfaradd (y gyfaredd) – swyn / atyniad sy’n hudo’r synhwyrau

*sgrech y coed, sguthan, cudyll coch, cylfinir – mathau o adar

*agar (ager) – anwedd / stêm

*aflwydd – rhywbeth drwg

**ADRAN B – Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN**

**2.** **Lluniwch GOFNODION cyfarfod Fforwm Ieuenctid Rhanbarth yr Urdd Sir Ceredigion. Dylech seilio eich cofnodion ar yr wybodaeth isod gan flaenoriaethu a dewis a dethol gwybodaeth addas. Gallwch hefyd dynnu ar eich PROFIADAU/ GWYBODAETH BERSONOL pan fo'n briodol. (Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen.) [40]**

## Pethau i'w trafod

**Trefnu gig, UFA, gwahoddiad i deithio tramor, noddi'r Urdd yn lleol**

## Nodiadau trefnu gig

- **Angen trefnu gig lleol**
- **Bwriad: adloniant, codi arian, hyrwyddo'r sin roc Gymraeg**
- **Artistiaid a chostau**
- **Cyhoeddusrwydd**
- **Targedu cynulleidfaoedd**

| Lleoliad | Cost | Maint y gynulleidfa | Cyfleusterau | Oriau | Oedran |
|---|---|---|---|---|---|
| Tafarn y Plu | £100 | 150 | System sain bach, bar | Tan ganol nos | Dros 18 oed |
| Canolfan Hamdden | £200 | 500 | Dim system sain, dim bar | Tan 11:00 | Agored |
| Gwesty'r Ddraig | £250 | 400 | System sain gwych | Tan 11:00 | Agored |

| Grwpiau | Cost | Manylion |
|---|---|---|
| Ffandango | £400 | Enillwyr Selar |
| Tansili | £200 | Newydd ryddhau albwm |
| Bachan | £150 | Grŵp ysgol |
| Y Gwirion | £250 | Grŵp ifanc addawol |
| Glyn Dawnus a’i Fand | £500 | Poblogaidd iawn a phrofiadol |
| **DJ** | | |
| DJ Al | £130 | |

**UFA: angen dewis aelod i gynrychioli’r Fforwm mewn Cynhadledd Ieuenctid yn y Senedd ym Mae Caerdydd...**

# Nodiadau noddi'r Urdd yn lleol

## Derbyn Cais Gan Gwmni Ynni Gwynt?

Awyddus i noddi gweithgareddau'r fforwm yn lleol

Mwy o gyfleoedd / adnoddau i ieuenctid lleol

Noddi £1000 y flwyddyn am 3 blynedd

Yn erbyn yr egwyddor o dderbyn arian gan gwmni allanol sy'n difetha'r tirwedd a'r amgylchedd lleol

Ymelwa ar dactegau diegwyddor

Cwmni allanol, cyflogi'n lleol

# Nodiadau gwahoddiad i deithio tramor

Taith yr Urdd i Batagonia

Profiadau: datblygu sgiliau, cyflawni gwaith gwirfoddol, profi'r diwylliant

Ymweliadau: mynd i Eisteddfod y Wladfa yn Nhrelew, croesi'r paith i Drevelin

Ymgeisio drwy lythyr cais

Cyfweliadau

**DIWEDD Y PAPUR**